

# Gwers 36 – Y Casglwr Trethi Bychan

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Luc 19: 1–10

**E**r mwyn cyllido'u hymherodraeth fyd-eang, roedd y Rhufeiniaid yn codi trethi trwm ar y cenhedloedd yr oeddent wedi'u goresgyn ac o fewn eu rheolaeth. Gwrthwynebai'r Iddewon y trethi hynny oherwydd fe'u defnyddid i hyrwyddo llywodraeth secwlar a'i duwiau paganaidd, ond nid oedd ganddynt ddewis ond eu talu. Casglwyr trethi oedd y bobl fwyaf amhoblogaidd yn Israel. Iddewon oeddent, yn gweithio i Rufain ac oherwydd hynny, ystyrid a gelwid hwy yn fradychwyr. At hynny, roedd yn hysbys fod yn gasglwyr trethi yn cyfoethogi eu hunain trwy odro eu cydwladwyr. Nid yw'n rhyfedd, felly, fod y bobl yn grwgnach pan ddywedodd Iesu, '...y mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddiw' (Luc 19:5).


Nid oedd Iesu'n bwriadu aros yn Jericho. Mynd trwy'r dref yr oedd Iesu, ond rhoddodd hynny gyfle i Sacheus i'w weld. Enw Hebreig yw Sacheus a'i ystyr yw 'yr un cyfiawn' neu'r 'un pur', ond nid oedd yn byw'n deilwng o'r enw hwnnw o bell ffordd. Ar wahân i'r hyn a ddywed Luc yma, ni wyddom ddim am Sacheus. Deuwn ar draws gasglwyr trethi yn Luc 3:13 a 5:27, ond yr oedd Sacheus 'yn brif gasglwr trethi'. Nid yw'r teitl hwn i'w ganfod yn unman arall ac er nad yw arwyddocâd y teitl yn hysbys y mae'n bosibl fod Sacheus yn bennaeth adran drethu leol, rhan o Jwdea, tiriogaeth o amgylch Jericho efallai. Byddai Sacheus yn cyflogi eraill i gasglu'r trethi, e.e. Mathew (Gwers 27), ac yn trosglwyddo'r swm gofynnol i'r Rhufeiniaid. Byddai Jericho yn le delfrydol i fod yn gasglwr trethi oherwydd ei lleoliad ar ffordd fasnach o Jerwsalem tua'r dwyrain. Un ystyr i'r enw Jericho yw 'dinas y palmwydd' ac y mae'r haneswyr Plini a Tacitus yn canmol cyfoeth ei phalmwydd. Does dim rhyfedd fod Sacheus yn gyfoethog. Gweler hefyd Wers 27.

Ar ôl iddo gyfarfod Iesu, sylweddolai Sacheus fod angen unioni ei ffordd o fyw ac y mae'n dangos y modd yr effeithiwyd ei fywyd gan agwedd Iesu tuag ato pan ddywed, 'Dyma hanner fy eiddo, syr, yn rhodd i'r tlodion: os mynnais arian ar gam gan neb, fe'i talaf yn ôl bedair gwaith', (Luc 19:8). Roedd hyn y tu hwnt i beth a ddisgwyliid yn y Gyfraith: 'Y mae i dalu'n llawn amdano, ac i ychwanegu pumed ran ato a'i roi i'r perchennog.....' (Lef. 6:5).

Nid oedd gan Sacheus unrhyw syniad beth a fyddai canlyniad dringo'r sycamorwydden. Diweddoddy diwrnod gyda Sacheus yn mwynhau cymdeithas lawen gydag Iesu yn ei dŷ ei hun. Yr oedd yn ddyn newydd oherwydd roedd Iesu wedi chwilio amdano ac yntau wedi ymateb mewn ffordd ymarferol, sef edifarhau a dychwelyd yr hyn yr oedd wedi ei ddwyn, a mwy. 'Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig' (Luc 19:10).

## Sycarmorwydden

Coeden yn dwyn ffrwyth tebyg i ffigys yn tyfu i uchder o tua 30 troedfedd. Nid i'w chamgymeryd gyda'r sycarmorwydden yn Ewrop ac UDA. Gyda boncyff byr a changhenau yn ymledu'n llydan a dail bythwyrdd, roedd ei dringo a chuddio ynddi yn hawdd i ddyn bychan o gorff.



Mae lesu'n siarad gyda Sacheus. Pam ddringodd Sacheus y goeden?  
Ceisia ddod o hyd i o leiaf with camgymeriad bwriadol.  
Darllen Luc 19:1-10.

# Gwers 36 – Y casglwr trethi bychan

## Iesu'r Ffrind | Luc 19

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 152



#### **Gwers 36**

Y casglwr trethi bychan

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed**

Y casglwr trethi bychan tud 152

#### **BEIBL LLIW STORI DUW**

Y casglwr trethi tud 258

#### **BEIBL BACH STORI DUW**

Y dyn heb ffrindiau tud 264

#### **BEIBL NEWYDD Y STORIWR**

Iesu a dyn y trethi tud 130

#### **BEIBL LLIW Y PLANT**

Iesu a Sacheus tud 248

#### **BEIBL NEWYDD Y PLANT**

Iesu'r ffrind tud 198

#### **BEIBL BACH I BLANT**

Twyllwr bach cas tud 214

#### **Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU**

Y gwyliwr yn y goeden tud 355

#### **BEIBL LLIW Y TEULU**

Y casglwr trethi bychan tud 270

### **I ddechrau**

Bydd angen ceiniogau – digon i roi 10 ceiniog i bob plentyn yn y dosbarth.

Dywedwch wrth y plant eich bod wedi penderfynu rhoi cyflog iddynt am ddod i'r Ysgol Sul heddiw. Rhannwch yr arian rhwng pawb.

Yna dywedwch fod angen talu am binnau ffelt i'r Ysgol Sul, a bydd yn rhaid i bawb roi ceiniog o'u cyflog i dalu am hyn. Cymerwch yr arian gan bawb.

Yna dywedwch fod angen talu am olau/trydan i'r Ysgol Sul, a bod angen i bawb gyfrannu ceiniog at y gost.

Eglurwch mai dyna sy'n digwydd i bawb sy'n ennill cyflog yn y wlad – rhaid talu trethi, sef rhoi ychydig o'r cyflog er mwyn talu am bethau fel ysgolion/ysbytai/canolfannau hamdden/ parciau/gwasanaethau casglu sbwriel/ffyrdd, ac ati.

Roedd hyn yn wir yng ngwlad ac yn amser Iesu Grist hefyd. Bryd hynny, roedd Casglwyr Trethi ym mhob ardal ac roedd pobl yn mynd atynt i dalu eu trethi. Doedd neb yn hoffi'r Casglwyr Trethi oherwydd bod llawer ohonynt yn anonest, yn cymryd mwy o arian nag y dylent. Roeddent hefyd yn gweithio i'r Rhufeinwyr oedd wedi goresgyn y wlad. Doedd neb eisiau bod yn ffrindiau gyda Chasglwyr Trethi, ond mae'r stori Feiblaidd heddiw yn dangos fod Iesu Grist yn barod i fod yn ffrindiau hefo pawb, gan gynnwys Casglwyr Trethi.

### **Yr hanes**

Darllenwch yr hanes o'r Beibl Gweithgaredd neu gallwch ddefnyddio un o'r llyfrau o'r Rhestr Adnoddau.

### **Cwis i atgyfnerthu'r stori**

Gwnewch lun coeden ar ddarn mawr o bapur neu ar fwrdd du neu fflip chart. Marciwch 10 llinell uwchben ei gilydd ar foncyff y goeden. Torrwch ddau Sacheus allan o'r papur, a'u lliwio mewn dau liw gwahanol.

Rhannwch y plant yn ddau dîm a rhowch Sacheus bob un iddynt.

Bydd angen 20 cwestiwn – rhai yn ymwneud â stori Sacheus a rhai ychwanegol. Pan fydd tîm yn ateb cwestiwn yn gywir mae hynny'n golygu eu bod yn cael gosod ei Sacheus nhw ar y llinell isaf gan ddefnyddio gwm gludo. Wedi ateb cwestiwn arall yn gywir, bydd Sacheus yn cael ei symud i fyny i'r llinell nesaf. Sacheus pa dîm fydd yn cyrraedd brig y goeden gyntaf?

Rhannwch ddarn o bapur yn ddwy golofn. Rhowch y pennawd CYN ar

frig un golofn, a'r pennawd WEDYN ar y llall. Gofynnwch i'r plant sut un oedd Sacheus cyn iddo gyfarfod â Iesu Grist, a sut ddyn ydoedd wedyn.

Wrth gyfarfod gydag Iesu, a phrofi ei gyfeillgarwch, sylweddolodd Sacheus fod yn rhaid iddo newid yn llwyr er mwyn byw fel yr oedd Iesu am iddo fyw.

Ydyn ni'n byw fel pobl sy'n ffrindiau i Iesu Grist?

Sylweddolodd Sacheus nad oedd yn iawn iddo fod yn anonest. Oes rhai pethau na ddylai ffrind i Iesu Grist ei wneud?

### Dysgu adnod

'Os yw dyn yng Nghrist y mae'n greadigaeth newydd', (2 Corinthiaid 17) neu,

'Pan mae rhywun yn dod yn Gristion mae wedi ei greu yn berson newydd', (beibl.net).

Dysgwch yr adnod ar gân – gweler rhif 22, 'Y Cyntaf a'r Olaf'.

### Gêm ychwanegol

Bydd angen paratoi 2 gerdyn ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth.

Dylid ysgrifennu'r gair 'twyllo' a swm o arian (1c, 2c, 3c) ar hanner y cardiau

a dylid cadw gweddill y cardiau'n wag.

Defnyddiwch y ceiniogau a ddefnyddiwyd i dalu cyflog i'r plant ar ddechrau'r wers (gan addo eu dychwelyd i'r plant wedyn!)

Dewiswch un o'r plant i fod yn Sacheus a rhowch y ceiniogau o'i flaen. Cymysgwch y cardiau a rhoi un cerdyn i bawb arall – ni ddylai'r plant ddangos y cerdyn i neb.

Rhaid i Sacheus ofyn i bawb fesul un, "A ydw i wedi dy dwyllo?"

Dylai'r plentyn ddangos ei gerdyn – os yw wedi twyllo, yna rhaid i Sacheus dalu yn ôl iddo 4 gwaith y swm sydd ar y cerdyn. Faint o arian sydd ar ôl gan Sacheus? Nodwch y swm wrth enw iawn y plentyn.

Gadewch i bawb fod yn Sacheus yn ei dro, gan gasglu'r cardiau, eu cymysgu ac yna eu rhannu wedi pob rownd.

Tro yn y gynffon – nid y plentyn sydd wedi llwyddo i gadw'r swm fwyaf o arian sydd yn ennill, ond yr un sydd wedi cadw lleiaf! Roedd Sacheus yn awyddus i dalu yn ôl er mwyn dangos ei fod wedi newid fel person.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Sacheus yn dringo coeden i weld Iesu tud. 133

### Tafleuni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C – Sacheus

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 43: Tyrd i lawr Sacheus  
Storiau'r Anifeiliaid: Stori Sacheus

### Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 53: Twyllwr Bach Cas

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 344

### Llyfrau Stori

Iesu a Sacheus  
Ar y Brig – stori Sacheus

